## Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru (WGSSS)

## Canllawiau Lleoliadau i Oruchwylwyr Ymchwil mewn Ymarfer

Fel goruchwyliwr, mae eich rôl yn allweddol wrth helpu ymchwilwyr doethurol i wneud y mwyaf o'u lleoliad Ymchwil mewn Ymarfer. Mae'r lleoliad hwn yn elfen graidd o daith PhD a ariennir gan yr ESRC, ac mae wedi'i gynllunio i wella datblygiad proffesiynol ymchwilwyr, ymgysylltiad â'r sector, a sgiliau trosglwyddadwy.

### Sesiynau Gwybodaeth

Bydd sesiwn Gwybodaeth Ymchwil Misol ar gael i fyfyrwyr a goruchwylwyr ei mynychu. Bydd manylion y digwyddiad yn cael eu rhannu trwy'r cylchlythyr.

### Dechrau'r Broses Lleoliadau

Y cam cyntaf i fyfyrwyr yw cwblhau'r Ffurflen Mynegi Diddordeb sydd ar gael ar wefan Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru. Ar ôl ei chyflwyno, bydd Cydlynydd Ymchwil mewn Ymarfer yn cysylltu â nhw, a byddant yn gwneud asesiad o anghenion y lleoliad ac yn darparu arweiniad a chefnogaeth bellach.

### Dod o hyd i leoliad

Mae dau brif ffordd y gall myfyrwyr ddod o hyd i leoliad. Yn gyntaf, mae Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru yn dod o hyd i gyfleoedd o ansawdd uchel trwy amrywiaeth o randdeiliaid. Yna bydd y cyfleoedd hynny'n cael eu hysbysebu trwy gystadleuaeth agored i fyfyrwyr Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru wneud cais. Yna byddai angen i fyfyrwyr y sefydliadau lletyol wneud cais yn uniongyrchol i'r sefydliad lletyol, gyda'r sefydliad lletyol yn prosesu'r ceisiadau.  Fel arall, gall myfyrwyr nodi a chysylltu â sefydliad lletyol yn annibynnol, neu efallai y gallwch chi fel goruchwyliwr gynnig awgrymiadau neu roi mewnbwn o ran y sefydliadau i gydweithio â nhw.

Cyn y gall unrhyw leoliad ddechrau, rhaid i fyfyrwyr lenwi Ffurflen Cymeradwyo Lleoliad. Mae'r ffurflen hon yn amlinellu'r project arfaethedig a natur y gwaith. Rhaid ei chyflwyno i  Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru i'w hadolygu a'i chymeradwyo er mwyn sicrhau bod y lleoliad yn bodloni'r gofynion angenrheidiol.

Am ragor o arweiniad ar y naill lwybr neu'r llall, cysylltwch â Chydlynydd Ymchwil mewn Ymarfer Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru drwy anfon e-bost at esrcrip@bangor.ac.uk.

### Cyn y Lleoliad

**Cynllunio Gyrfa a Sgiliau:** Cefnogwch yr ymchwilydd i nodi'r sgiliau y maent yn dymuno eu datblygu a sut mae'r lleoliad yn cyd-fynd â'u dyheadau gyrfa tymor hwy, o fewn y byd academaidd neu y tu hwnt iddo, gan ddefnyddio'r ddogfen Dadansoddiad Anghenion Datblygu er mwyn helpu i wneud hynny. Dylid annog ymchwilwyr hefyd i ddefnyddio'r gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd i gael cefnogaeth i baratoi neu ddiweddaru eu CV er mwyn gwneud ceisiadau.

**Gwneud Cais:** Bydd myfyrwyr yn gofyn am ddatganiad o gefnogaeth gan eu goruchwyliwr fel rhan o'u cais am leoliad. Dylai'r datganiad hwn gadarnhau bod y lleoliad arfaethedig yn cyd-fynd

â Dadansoddiad Anghenion Datblygu'r myfyriwr. Sicrhewch fod y datganiad wedi'i gwblhau a'i ddychwelyd i'r myfyriwr mewn da bryd cyn y dyddiad cau gwneud cais.

## Yn Ystod y Lleoliad

**Cadwch mewn Cysylltiad:** Dylech barhau â chyfarfodydd goruchwylio rheolaidd drwy gydol cyfnod y lleoliad. Dylai'r cyfarfodydd hyn gynnwys gwirio llesiant y myfyriwr, diweddariadau ar brofiad y lleoliad a diweddariad ar unrhyw newyddion sy'n berthnasol i'w project ymchwil.

**Cadw Cofnodion:** Sicrhewch fod pob cyfarfod goruchwylio'n cael ei ddogfennu gan ddefnyddio system diwtorial neu system oruchwylio eich sefydliad a bod dyddiadau'r lleoliad yn cael eu cofnodi'n briodol.

**Cefnogaeth:** Os oes unrhyw broblemau'n codi yn ystod y lleoliad, neu os oes arnoch angen unrhyw gefnogaeth, cysylltwch â Chydlynydd Ymchwil mewn Ymarfer Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru drwy anfon e-bost at esrcrip@bangor.ac.uk.

## Yn dilyn y lleoliad

Yn dilyn y lleoliad, bydd gofyn i'r myfyriwr gwblhau adroddiad diwedd y lleoliad, i'w gyflwyno o fewn mis i gwblhau eu lleoliad.

## Gofynion y lleoliad

**(yn ôl Canllawiau Hyfforddiant a Datblygiad Ôl-radd yr ESRC)**

### Hyd ac amseriad y lleoliad

- Fel rheol, bydd lleoliadau'n digwydd yn yr 2il neu'r 3edd flwyddyn (neu'r hyn sy'n gyfatebol yn rhan amser) ar ddyddiad dechrau'r interniaethau. Mae angen i fyfyrwyr yn y flwyddyn olaf fod ag o leiaf 6 mis ar ôl o'u PhD pan fydd yr interniaeth yn dechrau.
- Gellir ymgymryd â lleoliadau ar sail llawn amser neu ran amser. Rhaid i gyfanswm yr amser y mae ymchwilydd yn ei dreulio ar leoliad rhan amser fod yn gyfatebol i dri mis (13 wythnos) o waith llawn amser, neu'n gyfatebol yn rhan amser dros gyfnod o chwe mis (26 wythnos), a rhaid iddo beidio â bod am gyfnod hirach na hynny.
- Disgwylir i fyfyrwyr llawn amser gamu'n ôl o'u PhD i ganolbwyntio ar y lleoliad am ei hyd, yn unol â chanllawiau'r ESRC (Canllawiau Cyllido Ôl-radd yr ESRC t. 27). Rydym yn annog myfyrwyr i gadw ymrwymiadau eraill megis gwaith cyflogedig arall i'r lleiafswm lle bynnag y bo modd, er mwyn sicrhau ymgysylltiad llawn â'r lleoliad.
- Disgwylir i fyfyrwyr rhan amser gamu'n ôl o'u PhD i ganolbwyntio ar y lleoliad a gallant barhau â rolau eraill yr oeddent yn eu gwneud yn rhan amser ochr yn ochr â'u PhD, e.e. cyflogaeth, cyfrifoldebau gofalu ac ati.
- Ni ellir ymgymryd â lleoliadau yn ystod cyfnod cwrs Meistr. Ni ellir ymgymryd â lleoliadau yn ystod y tri mis cyntaf na'r chwe mis olaf o gyfnod cyllido PhD (neu efrydiaeth ran amser gyfatebol).
- Fel rheol, ymgymerir â lleoliadau mewn un bloc parhaus o dri mis (neu'r hyn sy'n gyfatebol yn rhan amser). Gall Ymchwilydd Ôl-radd ymgymryd â hyd at uchafswm o dri lleoliad byrrach yn olynol, neu ar wahanol gyfnodau, cyn belled â bod cyfanswm yr amser a dreulir ar leoliad yn cyfateb i dri mis o waith llawn amser (37.5 awr yr wythnos

am 13 wythnos). Bloc o fis (35 awr yr wythnos am 4 wythnos) (neu'r hyn sy'n gyfatebol yn rhan amser) yw'r isafswm amser y mae'n rhaid i ymchwilydd ei dreulio ar unrhyw leoliad unigol.

### Math o leoliad

- Rhaid i leoliadau gynnwys rhaglen glir o ran gweithgarwch/project a fydd yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy yr ymchwilydd, a'u gallu i ddefnyddio eu sgiliau ymchwil mewn gwahanol gyd-destunau, er mwyn gwella eu rhagolygon gyrfa a chyflogadwyedd.
- Rhaid i leoliadau fod yn broject ar wahân i'r PhD. Ni ellir cynnwys unrhyw allbynnau o'r lleoliad ym mhroject PhD y myfyriwr, ni ddylai gynnwys gwaith casglu data nac adolygiad polisi/llenyddiaeth a fydd yn cael ei gynnwys yn uniongyrchol yn y traethawd ymchwil, yn unol â chanllawiau'r ESRC.
- Ni ellir defnyddio lleoliadau i gymryd lle staff dros dro nac i sicrhau busnes fel arfer mewn sefydliad lletyol.
- Gellir cynnal lleoliadau yn y cnawd, o bell, neu'n gyfuniad o'r ddau. Nid oes angen defnyddio'r un fformat drwy gydol gweithgarwch y lleoliad.
- Fel rheol, ymgymerir â gweithgarwch lleoliad sy'n rhan o efrydiaeth Cynllun Gwobrau Cydweithredol Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru gyda'r sefydliad partner cydweithredol. Os yw Ymchwilydd sydd wedi derbyn efrydiaeth ymchwil gydweithredol yn dymuno ymgymryd â lleoliad gyda sefydliad lletyol gwahanol, rhaid iddynt wneud hynny gyda chytundeb eu Goruchwyliwr/Goruchwylwyr Ymchwil a'r sefydliad partner cydweithredol.
- Gall lleoliadau gael eu lletya gan sefydliadau academaidd (e.e. Canolfannau Ymchwil), a chan sefydliadau anacademaidd ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.
- Gellir ymgymryd â lleoliadau yng ngwasanaethau cefnogaeth broffesiynol prifysgol bartner Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru (e.e. gwasanaethau ymchwil, adran sicrhau ansawdd, adran gyllid, adran adnoddau dynol).
- Gall lleoliadau fod yn academaidd neu'n anacademaidd, ond rhaid iddynt gael eu lletya y tu allan i dîm goruchwylio ac adran gartref yr ymchwilydd.
- Fel arfer, cynhelir lleoliadau gydag un sefydliad lletyol. Fodd bynnag, nid oes angen ymgymryd â gweithgarwch lleoliad gyda'r un sefydliad lletyol drwyddo draw. Gall Ymchwilydd Ôl-radd weithio gyda hyd at dri darparwr lleoliad gwahanol. Bloc o fis (35 awr yr wythnos am 4 wythnos) (neu'r hyn sy'n gyfatebol yn rhan amser) yw'r isafswm amser y mae'n rhaid i ymchwilydd ei dreulio gydag unrhyw ddarparwr unigol.
- Fel arfer, ymgymerir â lleoliadau yn y Deyrnas Unedig. Dim ond mewn achosion eithriadol y caniateir lleoliadau dramor a rhaid iddynt gynnig cyfle i ddatblygu sgiliau na fyddai ar gael yn y Deyrnas Unedig. Rhaid i ymchwilydd sy'n ymgymryd â gweithgarwch lleoliad dramor sicrhau eu bod yn dilyn holl ganllawiau penodol eu prifysgol o ran teithio dramor, gan gynnwys cwblhau asesiad risg a chael yswiriant teithio.

### Cyllid

- Darperir gwerth tri mis o gyllid i gefnogi'r lleoliad (neu'r hyn sy'n gyfatebol yn rhan amser, e.e. 2.5 diwrnod yr wythnos dros 6 mis). Bydd Ymchwilwyr Ôl-radd yn parhau i dderbyn

eu hariantal am gyfnod y lleoliad a byddant yn parhau i fod wedi'u cofrestru fel myfyriwr yn ystod y cyfnod hwn.

- Ni all myfyrwyr dderbyn taliad ychwanegol am y lleoliad yn nhermau cyflog.
- Mae'r rhan fwyaf o bartneriaid lletyol sy'n cymryd rhan yn y cynllun wedi ymrwymo i gyfrannu at gyd-gyllido i dalu costau cymwys o ran teithio a llety sy'n deillio o'r interniaeth. Lle na all partneriaid lletyol wneud cyfraniad, gellir hawlio treuliau rhesymol o ran teithio a llety gan Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru am hyd at £1000 os yw'n hanfodol er mwyn i'r lleoliad ddigwydd (e.e. os na ellir ymgymryd â'r lleoliad o bell, neu os oes angen busnes i deithio'n rheolaidd).
- Lleoliadau tramor: Oherwydd y cyllid cyfyngedig sydd ar gael i gefnogi pob lleoliad, rhaid i fyfyrwyr sy'n cynnig lleoliad dramor eu hunain ystyried y terfyn cyllido rhagnodedig yn ofalus er mwyn sicrhau fod y lleoliad yn ddichonadwy.

### Cysylltu ag gwybodaeth

Am fwy o wybodaeth, neu i drafod lleoliad posibl neu i awgrymu unrhyw bartneriaid lleoliad posibl ar gyfer cynllun Lleoliad Ymchwil yn ymarfer, cysylltwch â:

Sian Shepherd - Cydlynydd Ymchwil yn ymarfer – esrcrip@bangor.ac.uk